**<u>AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD Cymru</u>**

Cofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 21 Medi 2015 yn Siambr Dafydd Orwig, Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) ac S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| R J Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod y Gwasanaeth wedi cael ei alw at dân mewn tafarn yn Nyserth ar 18 Medi 2015; roedd y tân wedi hen ddatblygu, ac yn anffodus roedd corff dynes wedi cael ei ddarganfod. Nid yw achos y tân wedi cael ei sefydlu eto, ac mae'r ymchwiliad ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru yn parhau. Nodwyd bod y swyddogion wedi rhoi gwybod i'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Cyng. P W Owen, sy'n cynrychioli'r ardal.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MEHEFIN 2015

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mehefin a Medi 2015 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd bod y diwrnod agored yng ngorsaf dân Dinbych i ddathlu canmlwyddiant a hanner o fodolaeth wedi bod yn ddiwrnod llwyddiannus iawn. Diolchodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i bawb a fu ynghlwm â threfnu'r diwrnod, a bu'n gyfle da i sôn wrth y gymuned leol am faterion diogelwch tân.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD YN 2014-15

6.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2014-15.

6.2 Lluniwyd y ddogfen yn unol ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 er mwyn rhoi cyfrif, mewn un ddogfen, am weithgareddau a pherfformiad yr Awdurdod yn 2014-15. Roedd hefyd yn crynhoi perfformiad yr Awdurdod o gymharu â dangosyddion cenedlaethol a lleol penodol a mesurau llwyddiant.

6.3 Nodwyd bod rhai bylchau yn y ddogfen o ran perfformiad data cymaradwy gydag ATAau yn Lloegr gan na fydd eu data perfformiad nhw yn cael eu cyhoeddi tan ddiwedd mis Medi; felly caiff y graffiau eu diweddaru cyn i'r ddogfen gael ei chyhoeddi. Aethpwyd â'r Aelodau drwy'r ddogfen, a thynnwyd sylw at y materion a ganlyn:

- Yn 2014-15, cafwyd tua 1,000 yn llai o danau am bob 10,000 o bobl nag yn 2010-11, ac mae'r nifer yn parhau i ostwng.

- Mae GTAGC yn parhau i ddarparu nifer gymharol uchel o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, er gwaethaf y mesurau cyni a'r gostyngiad yn yr arian grant, a da yw nodi bod 36.7% o'r archwiliadau wedi cael eu cynnal o ganlyniad i atgyfeiriadau gan sefydliadau ac asiantaethau sy'n bartneriaid inni.

- O ran amcan gwella 1 sydd gan yr Awdurdod, sef cadw cymunedau'n ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi, y niferoedd hyn yw'r rhai isaf a gofnodwyd erioed ar gyfer marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o'r mathau hyn o ddigwyddiadau. Rydym yn cydnabod bod gwaith eto i'w wneud o ran gostwng nifer y tanau mewn cartrefi, ond 12 tân am bob 10,000 o gartrefi oedd yna yn 2014-15. Er bod nifer yr achosion o farwolaeth yn isel, mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth uchel i'r Awdurdod. Nodwyd bod gwaith yn mynd ymlaen i ganfod pam fod nifer y mân anafiadau'n parhau'n uchel.

- Nodwyd bod yr Awdurdod wedi gallu cyflawni ei ail amcan gwella, sef cynnal ei lefel o wasanaethau ond gan gyfyngu ar y cynnydd yn y gost yn ôl y pen o'r boblogaeth, ac roedd wedi aros o fewn y gyllideb.

- Roedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei drydydd amcan gwella, sef canfod ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol. Dangoswyd hyn drwy'r gwaith a wnaed ar fod yn well am recriwtio staff ac ar gontractau, er mwyn ei gwneud yn haws i sicrhau bod criwiau ar gael ar orsafoedd dyletswydd amser cyflawn a hefyd y newidiadau a wnaed i wasanaethau anstatudol.

6.4 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r ddogfen, a chadarnhawyd y byddai fersiwn gryno'n cael ei llunio er mwyn ei chyhoeddi. I ateb cwestiwn ynglŷn â ffigyrau ymatebwyr cyntaf a chyd-ymatebwyr, dywedodd y PST wrth yr aelodau fod saith gorsaf yng Ngogledd Cymru wedi cael eu dewis i gynnal rhaglen i dreialu cyd-ymateb; os bydd y rhaglen beilot yn llwyddiannus, mae'n debygol o gael ei hymestyn ledled y Gogledd a bydd hyn yn cynyddu data perfformiad GTAGC o ran galwadau am wasanaethau arbennig.

6.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2014-15, i'w gyhoeddi cyn y dyddiad terfynol statudol sef 31 Hydref 2015.**

7 FFRAMWAITH CENEDLAETHOL Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB O 2016 YMLAEN

7.1 Cafodd yr Aelodau wybod am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub, sy'n nodi gweledigaeth, blaenoriaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ATAau yng Nghymru. Cadarnhaodd y PST y byddai'r ymateb terfynol yn cael ei rannu gyda'r aelodau.

7.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a**

**(ii) dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod erbyn y dyddiad cau sef 8 Hydref 2015.**

8 YMGYNGHORIAD AR AMCANION GWELLA 2016-17

8.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys dogfen ymgynghorol yr Awdurdod ar gyfer 2016-17, sef "Ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â sut i gynnal Gwasanaethau Tân ac Achub rhagorol a fforddiadwy yng Ngogledd Cymru yn 2016-17 a'r tu hwnt".

8.2 Nodwyd bod y Panel Gweithredol wedi cytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella, a oedd wedi cyfarfod yn rheolaidd i ystyried gwybodaeth ac i drafod datblygiad amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2016-17. Roedd yr holl Aelodau wedi cael cyfle i drafod yr amcanion drafft ac roeddent wedi cael cyflwyniadau i esbonio'r cefndir a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'u datblygu. Argymhellodd y Panel Gweithredol fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r amcanion drafft er mwyn ymgynghori yn eu cylch.

8.3 Roedd yr Aelodau'n gefnogol i ddogfen yr ymgynghoriad a'r fersiwn gryno, ac roeddent yn teimlo eu bod yn fyr ac i'r pwynt ac yn hawdd eu deall. Cadarnhawyd y byddai copïau caled o'r dogfennau'n cael eu dosbarthu, ynghyd â fersiwn ar-lein. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a Gweithgor y Cynllun Gwella am eu gwaith yn datblygu'r amcanion.

8.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y ddogfen er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.**

9 DATGANIAD O GYFRIFON 2014-15

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r datganiad archwiliedig o gyfrifon 2014-15 a'r datganiad llywodraethu blynyddol.

9.2 Nodwyd bod Aelodau'n Pwyllgor Archwilio wedi cael cyflwyniad manwl ar y cyfrifon yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2015, er mwyn adolygu'r cynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau mawr ac nid oeddent yn gallu gweld unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Hefyd, i'w cymeradwyo cyflwynwyd y llythyr sylwadau gan yr Awdurdod i sylw Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG.

9.3 Cadarnhawyd bod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a chawsant eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r trafodaethau wedi hynny ynglŷn â'r driniaeth gyfrifyddu, y diffiniadau a chyflwyno eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

9.4 Esboniodd y Trysorydd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud argymhelliad y 'dylai'r Awdurdod adolygu'r polisi ailbrisio presennol er mwyn sicrhau bod y dull o brisio eiddo, peiriannau a chyfarpar yn gyson â gofynion y Cod'. Cynigiodd y Trysorydd fod yr Aelodau'n cymeradwyo'r argymhelliad i newid y polisi ailbrisio ar gyfer eiddo er mwyn cynnal ailbrisiad llawn bob 5 mlynedd, gan gynnal yr ailbrisiad nesaf ar 1 Ebrill 2016.

9.5 Diolchodd yr Aelodau i Sandra Forrest a Julie Brown am eu holl waith yn paratoi'r cyfrifon, ac roeddent yn falch nad oedd unrhyw faterion wedi cael eu codi gan yr archwilwyr.

9.6 **PENDERFYNWYD**

- **(i) cymeradwyo'r Datganiad archwiliedig o Gyfrifon 2014-15;**
- **(ii) cymeradwyo bod y polisi ar gyfer ailbrisio asedau'n cael ei newid fel y bo ailbrisiad llawn o eiddo'n cael ei gynnal bob 5 mlynedd;**
- **(iii) nodi'r Llythyr Sylwadau.**

10 ALLDRO AMCANOL 2015-2016

10.1 Aeth y Trysorydd â'r aelodau drwy'r adroddiad, a rhoi alldro amcanol wedi'u amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16, ac esboniodd yr amrywiadau i wahanol benawdau yn y gyllideb.

10.2 Ar hyn o bryd, rhagwelir £25k o danwariant amcangyfrifiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond gallai hyn newid gan ddibynnu ar lefelau digwyddiadau rhwng nawr a Mawrth 2016. Nodwyd bod y gwariant o gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau a ddisgwylir, a hynny cyn gynted ag y bônt yn digwydd, er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes risg ariannol i'r Awdurdod. Nododd yr Aelodau hefyd fod y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £223k o gyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol, ni fydd gofyn defnyddio'r gronfa honno ar hyn o bryd.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant bychan.**

11 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL

11.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr wybodaeth ddiweddar am reoli'r trysorlys a dangosyddion ariannol. Fel gyda'r datganiad o gyfrifon, nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn y cyfarfod ar 14 Medi 2015, wedi adolygu'r cynnwys yn fanwl ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau mawr, nid oeddent yn gallu gweld unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

11.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r dangosyddion ariannol wedi'u diwygio;**

**(ii) nodi'r partïon cyfredol o gontract;**

**(iii) nodi'r benthyciadau newydd.**

12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (CYFNOD ADRODD 2014-2015)

12.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (cyfnod adrodd 2014-2015) i ymateb i ofynion Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

12.2 Nodwyd bod y Gwasanaeth yn parhau gyda'i ymdrechion i gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau. Mae treial chwe mis yn mynd rhagddo i gasglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn dilyn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, galwadau am wasanaethau arbennig a thanau mewn anheddau. Gall yr wybodaeth fod yn gymorth i'r Gwasanaeth sicrhau ei fod yn ymgysylltu â phawb yn y gymuned, a hefyd i bennu a yw rhai sydd wedi'u gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn mwy o berygl o gael tân neu fod mewn gwrthdrawiad ar y ffordd. Bydd y treial yn defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu data, sef defnyddio ffurflenni ysgrifenedig, wyneb yn wyneb a chyflwyniadau a chyflwyno ar-lein.

12.3 Llongyfarchwyd y swyddogion gan yr Aelodau am adroddiad rhagorol, ac roeddent yr Aelodau'n teimlo ei fod yn adlewyrchu brwdfrydedd y Gwasanaeth tuag at yr agenda cydraddoldeb. Roedd yr Aelodau'n falch hefyd o weld bod y Gwasanaeth yn parhau i rannu'r wybodaeth hon gydag asiantaethau eraill.

12.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**

**(ii) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2014-2015 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

Gadawodd y Cyng. McGuill y cyfarfod ar yr adeg hon.

13 DYFARNIAD CYFLOG I'R PRIF SWYDDOGION 2015

13.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r cytundeb ynghylch dyfarniad cyflog 2015 a wnaethpwyd gan Gyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol. Dywedodd y Trysorydd y byddai'r Awdurdod yn torri'r contract sydd ganddo gyda phrif swyddogion petai'n penderfynu peidio â chefnogi'r cytundeb oherwydd bod y cymal am ddyfarniad cyflog yn rhan o gontractau cyflogaeth prif swyddogion.

13.2 **PENDERFYNWYD cefnogi penderfyniad y Cyd-Gyngor yr NJC fel y nodir uchod.**